

CYNGOR CYMUNED PENNAL

Cofnodion o Gyfarfod Cyngor Cymuned Pennal a gynhaliwyd Nos Wener y 10fed o Orffennaf 2026 am 7.30yh yn y Ganolfan Pennal.

Presennol; Cyng. Rhys Parry, William Rees, Aled Rees, James Brunton, a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd y Cyng Rhys Parry. Roedd ymddiheuriadau gan Cyng Meirion Roberts, Sion Evans a Ken Griffiths.

Roedd neges o ymddiswyddiad i law gan Ken Griffiths, a diolchwyd iddo am ei waith dros y blynyddoedd. Byddai'r Clerc yn hysbysu Cyngor Gwynedd o'r sefyllfa.

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

2. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw gyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Cadarnhawyd gofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar yr 8fed o Fai 2026 ar gynnig Cyng William Rees a'i eilio gan Cyng Aled Rees.

4. Materion yn codi.

- a) **Materion Priffyrdd** – adroddwyd yr ymatebion diweddaraf. Nid oedd y Cyngor am weithredu ynglyn a coed yn gwyro i'r ffordd wrth fynd allan o Bennal i gyfeiriad Machynlleth, sef rhwng y Rectory a mynediad Caeau Madog, a byddai rhaid cadw golwg ar hyn.
- b) **Mynwent yr Eglwys** – nid oedd unrhyw ddatblygiadau.
- c) **Cynllun 'Gwynedd Ni'** – cronfa Cynghorau tref/Cymuned. Adroddwyd y diweddaraf, ac roedd yr holl wybodaeth wedi ei ddanfôn ymlaen i'r Cynghorwyr. Roedd y cais yn cynnwys cael barbeciw newydd i ddefnydd y gymuned, cael marquee newydd, a sustem PA newydd (cyfanswm £5157.78). Roedd y cyfan wedi ei gymeradwyo, a'r newyddion da wedi ei ddanfôn i bawb. Diolchwyd i'r Cyng Meirion Roberts am ei holl waith yn cael prisiau.

Atgoffwyd pawb o'r gwaith oedd Liz Fenwick yn ei wneud ar pamffled Pennal. Roedd £780 wedi ei hawlio gan cynllun 'Gwynedd Ni' yn 2025, ac roedd gweddll y gwaith yn gost o £920 (nad oedd o fewn y cynllun eleni)

- d) **Cyngor Tref Aberdyfi** – Cynllun Trafnidiaeth cymunedol gwirfoddol – nodwyd y diweddaraf.
- e) **Gwelliant i'r arhosfan bws yn Cwrt** – cadarnhawyd fod y gwaith i'w wneud yn fuan gan gwmni William Rees.
- f) **Coeden ar y Marian** – roedd Carwyn Lloyd wedi gwneud y gwaith bore Sadwrn 9fed Mai, a diolchwyd am waith taclus. Cytunwyd i dalu yr anfoneb am £420.
- h) **Cynllun y fynwent newydd yn Pennal** – byddai rhaid trafod y tro nesaf.
- i) **Baw cwn ar y Marian** – addawodd Cyng Rhys Parry i edrych i mewn i hyn erbyn y tro nesaf.
- j) **Asesadu y Cyngor** – cadarnhawyd fod y 4 bwrdd (£2800) a'r camerau (£2500) wedi ei hychwanegu i'r polisi yswiriant ar gost o £70.22.

5. Materion Cynllunio.

Roedd llythyr gan Iona Roberts o'r Parc Cenedlaethol yn rhoi trosolwg byr o Wasanaeth Cydymffurfiaeth yr Awdurdod – byddai'r Clerc yn ei ddosbarthu er gwybodaeth i bawb.

6. Materion Cyllid.

- a) Nodwyd balansau y cyfrifon, (10.07.26), sef Cyfri Cyfredol £21,256.370, Cyfri Cadw £2720.36. Nodwyd bod hysbyseb arferol am y cyfrifon wedi ei roi ar y wefan a'r hysbysfwrdd yn y pentref.
- b) Ar gynnig Cyng James Brunton a'i eilio gan Cyng William Rees, cytunwyd i dalu yr anfonebau canlynol;
 - Cydnabyddiaeth y Clerc £592.12 a HMRC £148.
 - Carwyn Lloyd – torri coeden ar y Marian £420.

Cadarnhawyd hefyd y taliad o £1074.00 am y di-fib newydd i Cwrt. Roedd cadarnhad gan Cyng Aled Rees fod y difib wedi ei gofrestru, a bod y ddau wedi eu diweddarau. Diolchwyd yn fawr am hyn.

- c) Ceisiadau am arian ;
 - Kids Cancer Charity – penderfynwyd peidio cyfrannu.
 - TAITH – darllenwyd y llythyr i law, a chytunwyd ar gynnig Cyng James Brunton a'i eilio gan Cyng William Rees i gyfrannu £100.

7. Gohebiaeth

- a) Nodwyd sesiynau hyfforddiant Un Llais Cymru a oedd i law.
- b) Roedd gohebiaeth gan y Parc Cenedlaethol yn nodi cais am adborth ar y proffiliau anheddau drafft oedd i law, sef ar gyfer Cwrt a Pennal. Roedd hwn wedi eu danfon i bawb ar y 25.06.26, ac os oedd gan unrhyw un sylwadau, byddai rhaid ymateb erbyn diwedd Gorffennaf.
- c) Nodwyd ymgynghoriad ynglyn a'r bwriad i godi ardoll ar ymwelwyr. Roedd cyfle i roi sylwadau, ac roedd hyn wedi ei ddanfon allan i bawb ar 30.06.26. . Roedd angen ymateb erbyn 28 Gorffennaf, a byddai'r Clerc yn rhoi poster i fynny.
- d) Roedd llythyr caredig o ddiolch gan Nia Wyn Thomas – Evans am y rhodd ariannol i gael offer i'r ysgol.

8. Unrhyw fater arall.

- Adroddwyd y diweddaraf gyda'r sefyllfa yn Rhys Terrace, a byddai Cyng Aled Rees yn cael gair gyda Sion Wilkes.
- Roedd damwain wedi digwydd ar y ffordd o dan Marchlyn, (cyn,mynediad Gwerniago) ac roedd angen gofyn am wyneb anti-skid yno.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF; Nos Wener y 4ydd o Fedi yn y Ganolfan am 7.30yh.

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 9.00pm.

